***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1713

## Rheoliadau Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Cymru) 2006

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai 2004;

(b) ystyr "gosodion, ffitiadau neu gyfarpar" ("*fixtures, fittings or appliances*") yw—

(i) cyfarpar goleuo, gwresogi gofod neu wresogi dŵr;

(ii) toiledau, baddonau, cawodydd, sinciau, neu fasnau ymolchi neu unrhyw gypyrddau, silffoedd neu ffitiadau a ddarparwyd mewn ystafell ymolchi neu doiled;

(iii) cypyrddau, silffoedd neu gyfarpar a ddefnyddir i storio, paratoi neu goginio bwyd; a

(iv) peiriannau golchi neu gyfarpar golchi arall;

(c) ystyr "tŷ amlfeddiannaeth" ("*HMO*") yw tŷ a ddiffinnir gan adrannau 254 i 259 o'r Ddeddf; ac

(ch) ystyr y "rheolwr" ("*manager*"), o ran tŷ amlfeddiannaeth, yw'r person sy'n rheoli'r tyŷamlfeddiannaeth(**1**).

(**1**) I gael ystyr "person managing" *gweler* adran 263(3) o'r Ddeddf.